cymorth cymru
connect • strengthen • influence

# Cymorth Cymru
# Cynllun Strategol
## 2026-2030



# Cyflwyniad

**Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Cymorth wedi bod yn falch o arwain y sector digartrefedd a chymorth tai drwy gyfnod o her a newid sylweddol. Buom yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda'n haelodau a'r llywodraeth yn ystod y pandemig, llwyddwyd i sicrhau codiadau hanesyddol mewn cyllid ym maes digartrefedd a chymorth tai, roeddem ar flaen y gad i roi gwell adnabyddiaeth, cydnabyddiaeth, a chefnogaeth i weithwyr rheng flaen, a buom yn arwain gwaith oedd yn sicrhau bod arbenigwyr trwy brofiad wrth galon newidiadau deddfwriaethol arloesol.**

Ar bob cam o'r ffordd, buom yn ddiflino yn ein hymdrechion ymgyrchu i wella polisi, deddfwriaeth ac ymarfer. Rydym wedi bod yn falch o weithio mewn partneriaeth i gyflawni ein nodau, a phob amser yn barod i sefyll dros yr hyn sy'n iawn, gan godi ein lleisiau ar y materion allweddol sy'n effeithio ar ein haelodau, y gweithwyr rheng flaen, a'r bobl maent yn eu cefnogi.

Mae tymor diwethaf y Senedd wedi cyflawni llawer i fod yn falch ohono, gyda deddfwriaeth digartrefedd oedd yn torri tir newydd, cynnydd mewn ariannu cymorth tai, a buddsoddiad uwch nag erioed mewn tai cymdeithasol. Fodd bynnag, gyda bron i 11,000 o bobl mewn llety dros dro, 90,000 o aelwydydd ar y rhestr aros am dai cymdeithasol, a gormod o bobl yn byw mewn sefydliadau yn hytrach nag mewn cartrefi, mae cymaint mwy o faterion ar ôl i ni frwydro drostynt...





## *Edrych i'r dyfodol*

Wrth i ni edrych ymlaen at y pedair blynedd nesaf, mae Cymru'n wynebu newid gwleidyddol arwyddocaol, gyda diwygio'r Senedd yn debygol o arwain at fewnlifiad o wleidyddion newydd a newid mewn llywodraeth. Bydd raid i ni yn Cymorth fod yn barod i hysbysu ac ymgysylltu â chenhedlaeth newydd o wleidyddion y bydd ganddynt rôl holl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o siapio penderfyniadau polisi, deddfwriaeth a chyllid ar gyfer pobl Cymru.

Un o'r eitemau cyntaf ar agenda'r llywodraeth newydd fydd gweithredu'r ddeddf arloesol ar Ddigartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). Mae hyn yn her anferth, ond yn un sy'n holl bwysig os ydym am gyflawni'r uchelgais o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae Cymorth wedi ymrwymo i gefnogi Llywodraeth Cymru, ein haelodau, a gwasanaethau cyhoeddus eraill i wireddu'r ddeddfwriaeth hon.

Ochr yn ochr â newid deddfwriaethol, a'r angen am ragor o dai cymdeithasol, gwyddom fod atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai yn holl bwysig i'r dasg o alluogi pawb i gael lle diogel i'w alw'n gartref. Beth bynnag fo'r sefyllfa – helpu rhywun allan o ddigartrefedd, eu helpu i gynnal tenantiaeth gyfredol, neu alluogi rhywun a chanddynt anabledd dysgu i fyw bywyd llawn yn eu cymuned – mae'r gwasanaethau hyn yn newid ac yn arbed bywydau. Bydd Cymorth yn parhau i arwain yr ymgyrch dros gynnydd yn y cyllid i'w galluogi i barhau, ynghyd ag eiriol dros fwy o gydweithredu gyda gwasanaethau eraill i leihau'r anghydraddoldebau sy'n wynebu grwpiau ar y cyrion.

Wrth gwrs, byddai hyn oll yn amhosibl heb ein gweithlu gwych ym maes digartrefedd a chymorth tai. Dros y chwe blynedd diwethaf rydym wedi ymgyrchu dros y Cyflog Byw Gwironeddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, wedi sicrhau cynnydd mewn cyllid wedi'i dargedu ar gyfer cyflogau gweithwyr yn y sector digartrefedd, ac wedi arwain ar adroddiad sy'n gosod llwybr ar gyfer gwell adnabyddiaeth, cydnabyddiaeth, a chymorth ar gyfer y gweithlu holl bwysig hwn. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'n llais i annog Llywodraeth nesaf Cymru i wireddu hyn.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n haelodau a'n partneriaid ar yr holl faterion hyn tuag at ein nod o sicrhau bod pawb yng Nghymru'n cael lle diogel i'w alw'n gartref, a'r cymorth cywir i'w galluogi i ffynnu yn eu cymunedau.

Katie Dalton
**Cyfarwyddwr**

Sian Aldridge
**Cadeirydd y Bwrdd**

# Am Cymorth Cymru

**Cymorth Cymru yw'r corff cynrychioli ar gyfer darparwyr gwasanaethau digartrefedd, tai a chymorth yng Nghymru. Rydym yn gweithredu fel llais cryf i'r sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisi, deddfwriaeth ac arferion sy'n effeithio ar ein haelodau a'r bobl maent yn eu cefnogi.**

## Cenhadaeth:

Gweithio gyda'n haelodau, arbenigwyr trwy brofiad, a phartneriaid, i wella polisi, ymarfer a chyllid i wireddu ein gweledigaeth o Gymru lle mae gan bawb le diogel i'w alw'n gartref, a'r cymorth mae arnynt ei angen i'w galluogi i ffynnu yn eu cymunedau.

## Gweledigaeth:

Cymru lle mae gan bawb le diogel i'w alw'n gartref, a'r cymorth mae arnynt ei angen i'w galluogi i ffynnu yn eu cymunedau.

## Gwerthoedd:

- **Tosturiol:** Byddwn yn gosod tosturi, urddas a pharch at bobl a chanddynt brofiad byw, a gweithwyr rheng flaen, wrth galon ein gwaith i wella polisi, deddfwriaeth ac ymarfer.
- **Cydweithredol:** Byddwn yn datblygu perthnasoedd o ymddiriedaeth gyda'r llywodraeth, partneriaid, gweithwyr rheng flaen ac arbenigwyr trwy brofiad, gan weithio mewn partneriaeth i gael yr effaith orau bosibl..
- **Dewr:** Byddwn yn parhau i fod yn danllyd o annibynnol, gan ddefnyddio ein llais i herio pŵer, ac i herio'r rhai sy'n cymryd penderfyniadau i wneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod gan bawb le diogel i'w alw'n gartref.



# Ein nodau strategol:



# Dylanwadu ac eiriolaeth

***Bydd Cymorth yn darparu arweiniad cryf a chredadwy ar gyfer y sector, gan herio a chefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, tra hefyd yn sicrhau bod lleisiau arbenigwyr trwy brofiad, a gweithwyr rheng flaen, yn ganolog i'n gwaith dylanwadu.***

Byddwn yn:

- Datblygu strategaeth i ymgysylltu ag Aelodau newydd y Senedd a chyflwyno gwybodaeth iddynt, a chefnogi ein haelodau i wneud yr un fath.
- Parhau i arwain yr ymgyrch dros gynnydd mewn cyllid aml-flwyddyn ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer ein haelodau sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol.
- Dylanwadu ar, a goleuo, gwaith Llywodraeth Cymru i weithredu'r Ddeddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).
- Eiriol dros, a helpu i lunio, Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd newydd Llywodraeth Cymru.
- Defnyddio ein dylanwad ar draws meysydd polisi a gwasanaethau cyhoeddus eraill i leihau anghyfartaleddau a gwella canlyniadau ar gyfer grwpiau sydd ar y cyrion, yn cynnwys ym maes iechyd cynhwysol.






# Cryfhau a chefnogi

**Bydd Cymorth yn cryfhau a chefnogi'r sector i gyflenwi gwasanaethau o safon uchel, sy'n berson-ganolog a thrawma-wybodus, trwy ddatblygu a rhannu ymarfer da, polisi, ac ymchwil oddi mewn i Gymru ac yn rhyngwladol.**

Byddwn yn:

- Parhau i eiriol dros well adnabyddiaeth, cydnabyddiaeth, a chefnogaeth ar gyfer gweithwyr cymorth rheng flaen ym maes digartrefedd a thai.
- Ymchwilio, cyhoeddi adroddiadau polisi, a rhannu ymarfer da o fewn Cymru a thu hwnt.
- Cefnogi'r sector i weithredu'r Ddeddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).
- Parhau i hyrwyddo amgylcheddau sy'n seicolegol-wybodus trwy ddarparu ein hyfforddiant PIE a'r Youth Experiential Learning Simulation (YExLS).
- Parhau i gefnogi'r sector i bontio i ailgartrefu brys ac ehangu Tai yn Gyntaf, yn cynnwys darparu achrediad Tai yn Gyntaf Cymru.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac aelodau i ddatblygu a gwreiddio'r Safonau Tai â Chymorth newydd i Gymru.





# Cysylltu a chydlynu

**Bydd Cymorth yn darparu gofodau pwrpasol lle gall aelodau, gweithwyr rheng flaen ac arbenigwyr trwy brofiad gysylltu â ni, â rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac â'i gilydd, yn ogystal â sicrhau bod ein haelodau'n derbyn gwybodaeth am y materion allweddol sy'n effeithio ar y sector.**

Byddwn yn:

- Parhau i gynnal digwyddiadau ar-lein ac mewn-person, gan weithio gyda phartneriaid megis Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chysylltu rhanddeiliaid allweddol â blaenoriaethau a rennir.
- Sefydlu fforwm genedlaethol Arbenigwyr trwy Brofiad, gan gefnogi arbenigwyr trwy brofiad i ddefnyddio'u lleisiau i eiriol dros newid.
- Parhau i redeg ein rhwydweithiau polisi, yn cynnwys Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru, gan ddarparu gofod pwrpasol lle gall gweithwyr rheng flaen gadw mewn cysylltiad a rhannu eu barn.
- Adolygu ein cyfathrebiadau gydag aelodau, partneriaid a chynulleidfaoedd allanol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gysylltiedig â'n gwaith ac yn derbyn gwybodaeth am y materion allweddol yn y sector.
- Cysylltu â phartneriaid ledled y DU, Ewrop ac yn rhyngwladol, hyrwyddo ein gwaith yng Nghymru, ac ennill dealltwriaeth o ddatblygiadau rhyngwladol ym meysydd polisi deddfwriaeth ac ymarfer.





# Sefydliad cryf a chynaliadwy

**Yr allwedd i gyflawni ein nodau strategol yw sicrhau bod Cymorth yn parhau'n gynaliadwy ac yn cael ei reoli'n dda, yn ogystal â recriwtio a chadw pobl sy'n meddu ar y gwerthoedd a'r sgiliau priodol.**

Byddwn yn:

- Cyflenwi gwaith o ansawdd uchel, a rhoi gwerth am arian i'n haelodau a'n cyllidwyr.
- Nodi cyfleoedd cyllido ychwanegol, ond gan wrthbwyso hyn â'r angen i gynnal ein ffocws craidd a'n blaenoriaethau cyfredol.
- Rhoi gwerthoedd wrth galon ein recriwtio, ynghyd â'r sgiliau a'r cymwyseddau priodol.
- Darparu gweithle cefnogol, cynhwysol a hyblyg, ynghyd â chyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad, a rhaglen llesiant ar gyfer y cyflogeion.
- Darparu'r wybodaeth gywir a chymorth i aelodau'r Bwrdd i'w galluogi i ddarparu her adeiladol a chymorth i'n tîm o staff.

